| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Medi 2013** |
| **Awdur yr adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Cynllun Gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Drafft** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu cynllun gweithredu newydd i'r Pwyllgor ac yn deillio o adolygiad fframwaith llywodraethu'r Cyngor a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) 2012/13.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn monitro cynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rheolaidd fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'r gwelliannau angenrheidiol yn effeithiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar y Cynllun Gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol drafft ac a oes angen unrhyw wybodaeth bellach am unrhyw faes a ymdrinnir gan y Cynllun Gweithredu.

## 4. Cefndir

3.1. Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys asesiad blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n amlygu unrhyw wendid llywodraethu sylweddol. Mae'r Fframwaith hefyd yn amlygu meysydd pellach, sydd, er nad ydynt yn wendidau sylweddol, angen gwelliannau o hyd.

3.2. Mae Grŵp Llywodraethu'r Cyngor yn rheoli'r broses Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ac yn datblygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn barhaus yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys:

- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Archwilio Mewnol

3.3 Mae’r Grŵp Llywodraethu wedi datblygu’r Cynllun Gweithredu drafft yn Atodiad 1. Ar hyn o bryd, amlinelliad o gynllun gweithredu ydyw gyda sawl cyfrifoldeb, amserlen a diweddariad cynnydd eto i’w cwblhau. Caiff y rhain eu hychwanegu cyn yr adroddiad diweddaru nesaf i’r Pwyllgor hwn, a chaiff sylw’n rheolaidd.